FOOT IN THE DOOR | TROED YN Y DRWS

# PAM GLOVER

**Tai Pobl a Prifysgol De Cymru**



## Pa effaith ydy'r prosiect wedi'i chael ar Pam?

- Yr effaith bwysicaf y mae'r prosiect wedi'I chael ar Pam oedd gallu adrodd ei stori a'I chael wedi'i dogfennu ar ffilm fel ei bod ar gof a chadw i'r gymuned.
- Drwy gydol y broses honno, mae cymryd rhan yn y gweithdy ffilmio a'r ffilm ddogfen wedi cynyddu rhwydwaith Pam yn sylweddol, sydd, yn ei barn hi, yn hanfodol yn ei hoedran hi lle mae teulu, ffrindiau a chymdogion yn cael eu colli, ac lle mae cwrdd â phobl newydd yn bwysig er mwyn dal ati i fwynhau bywyd.
- Mae Pam wedi mwynhau cymysgu â phobl iau yn arbennig, ynghyd â gweithio gyda'r myfyrwyr creu ffilmiau.
- Mae Pam yn credu bod y ffilmiau wedi cael effaith gadarnhaol ar y gymuned - cymuned y mae'n siarad mor angerddol amdani. Meddai fod y gymuned wedi newid ar raddfa gyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a'i bod wedi'i llethu gan agweddau negyddol.
- Mae prosiect Troed yn y Drws wedi rhoi rhywbeth gwych i'r gymuned siarad amdano a'i gofio, ac mae wedi creu ffilmiau a chyfleoedd a fydd yn parhau.
- Gall prosiectau fel hyn greu cyfleoedd i bobl sy'n byw yn y gymuned.
- Mae'r prosiect hwn wedi rhoi blas pellach i Pam ar y diwydiant, gan gynnwys gwaith camera a chriw ac nid bod o flaen y camera yn unig. Ni ddylai pobl feddwl nad ydyn nhw'n gallu ei wneud.
- Mae prosiectau fel hyn yn dangos i bobl eu bod nhw'n gallu ei wneud ac mae'n rhoi'r cyfle yna iddyn nhw archwilio. Dydy byw mewn cymuned fel Pilgwenlli ddim yn diffinio'r hyn rydych chi'n ei wneud. Mae llawer o bobl gynhyrchiol a thalentog yn byw ym Mhilgwenlli ac yng nghyffiniau Casnewydd, sydd wrth eu boddau â chyfleoedd fel hyn.

## Sut glywsodd Pam am y prosiect Troed yn y Drws?

- Dechreuodd taith Pam drwy fynd i weithdy cymunedol 'ffilmio ar eich ffôn symudol' yn Barnabas Arts House, a thrwy hynny datblygodd cyfleoedd i Pam fod yn rhan o brosiect 'Troed yn y Drws'.
- Rhoddwyd manylion cyswllt Pam i'r myfyrwyr creu ffilmiau a oedd â diddordeb ym mherthynas Pam â'r Bont Gludo a'r stori oedd ganddi i'w hadrodd.
- Daeth Pam yn gyfrannwr, gan ymddangos yn ffilm ddogfen y Bont Gludo.
- Roedd gan Pam ddiddordeb yn y diwydiant ffilm am ei bod wedi gwneud gwaith SA am yr wyth mlynedd diwethaf. Daeth Pam I gyswllt â'r prosiect i gychwyn am ei bod yn awyddus i ddysgu mwy am ddefnyddio ei ffôn symudol i gynhyrchu ei thapiau ei hun, gan obeithio y byddai hynny'n creu mwy o gyfleoedd i'w gwaith SA.
- Pan glywodd Pam fod ffilm ddogfen hefyd yn cael ei gwneud drwy'r prosiect hwn am y Bont Gludo, rhywbeth sy'n agos at ei chalon a'r gymuned y mae hi'n byw ynddi, roedd yn awyddus i fod yn rhan o'r gwaith ac adrodd ei stori.
- Arweiniodd hyn at gyfle i Pam weithio gyda myfyrwyr creu ffilmiau a dogfennu hanes ei thad lawr yn y dociau, stori y mae hi'n dweud a allai fod wedi ei cholli fel arall.
- Mae Pam yn credu, os ydych chi'n wynebu cyfle, y dylech chi ei gymryd.

## Beth wnaeth Tai Pobl yn wahanol wrth weithio ar y prosiect yma?

The Trwy'r broses hon rydym wedi cynnal sgyrsiau gyda'n trigolion am eu cymuned mewn ffordd gadarnhaol a chynhyrchiol. Trwy gyfrwng ffilm, mae wedi ein galluogi i gael sgwrs wahanol, gan ddechrau o sefyllfa sy'n seiliedig ar asedau. Rhoddodd y prosiect hwn fachyn i ni ymwneud â'r gymuned a chysylltu â hi mewn ffordd wahanol.